

I ddysgwyr Cymraeg a disgyblion
Cymraeg ail iaith Cyfnod Allweddol 2

bore da



SEREN ★ SBARC

RHIFYN MAWR YR HAF!

Ffrindiau
Rhyngwladol
Mistar Urdd

**Cynnwys ar-lein
am ddim!**

**Mae'r manylion i gyd ar
dudalen 2!**

ISSN 0006-7709



9 770006 770009 >



Urdd

CYMRAG

Siarter
Iaith

urdd.cymru/boreda

boreda@urdd.org



Cylchgronau yr Urdd



@cylchgronau_urdd



Urdd

Cynnwys ar-lein am ddim!

Chwilio am bethau i wneud yn y tŷ tra bod rhaid hunan-ynysu (self isolate)?


Wel, mae llawer o bethau i wneud ar wefan yr Urdd - posau, straeon, lluniau lliwio, gwybodaeth ddefnyddiol (useful information) a mwy!
Ac mae'r holl gynnwys am ddim i ddarllen, lawrlwytho ac argraffu!

Cer i urdd.cymru/criw i weld beth sydd yno.

Paid anghofio (forget) am dudalen 'Efrindiau Bore Da' ar-lein. Mae cwisiau, posau, fideos a gemau gwahanol i chi wneud!

Sgania neu clicia ar y côd QR yma i gyrraedd at y dudalen gudd i danysgrifwyr!









Geirfa

addurno	- decorate
asgwrn	- bone
blasus	- tasty
canhwyllau	- candles
cymysgedd	- mixture
cynnwys	- content
cyw iâr	- chicken
gad lonydd i mi	- leave me alone
llwy bren	- wooden spoon
llyncu mul	- Welsh idiom 'to sulk'
llysiau	- vegetables
mul	- mule
powlen	- bowl
pwdu	- sulk
twp	- stupid
wedi anghofio	- forgotten
ychwanegu	- to add

Ffrindiau Rhyngwladol Mistar Urdd

AWSTRALIA

Hei ffrindiau!

Mae plant Ysgol Haf Sydney ysgrifennu llythyrau am eu bywydau nhw yn siarad a dysgu Cymraeg yn Awstralia.

Beth am ysgrifennu llythyr atyn nhw at boreda@urdd.org?


Fy enw i yw Elin. Dw i'n chwech mlwydd oed. Dw i'n byw yn Sydney, De Cymru Newydd, Awstralia. Fy hoff beth am Awstralia yw y crwbanod. Haf yma, es i i Ysgol Haf Gymraeg Sydney. Dysgais lawer am gelf a chrefft. Fy hoff liw yw melyn.

Siarad cyn bo' hir,
Elin



Fy enw i yw Owen. Dw i'n 8 mlwydd oed. Dw i'n byw yn Sydney, De Cymru Newydd, Awstralia. Mae hi'n boeth iawn yma. Fy hoff beth am Awstralia yw'r traeth. Haf yma (sef mis Ionawr), es i i Ysgol Haf Gymraeg Sydney. Dysgais i sut i chwarae gemau yn y Gymraeg. Dw i'n mwynhau chwarae rygbi. Dw i'n chwarae i Warhurst.

Cofion,
Owen



Fy enw i yw Seren. Rwy'n bump oed. Rwy'n hoffi rhedeg. Rwy'n byw yn Awstralia.

Sws sws,
wrth,
Seren



Helo!

Fy enw i yw Branwen. Rwy'n 12 oed. Dw i'n byw yn Sydney, De Cymru Newydd, Awstralia. Mae'r tywydd yn boeth iawn ac yn sych yma. Mae'r traethau a'r anifeiliaid yn anhygoel. Fy hoff anifail yw ceffylau. Haf yma, es i i Ysgol Haf Sydney. Dysgais sut i ysgrifennu yn y Gymraeg a sut i chwarae gemau yn y Gymraeg. Yn fy amser sbâr rwy'n caru marchogaeth ceffylau. Enw fy ngheffyl yw Joey. Mae e'n lliw orenaid a brown fel cneuen. Dw i wedi ymweld â Chymru ddeg gwaith. Blwyddyn diwethaf es i i Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst.

Sws sws,
Branwen



Fy enw i yw Cai ac rwyf yn 7 mlwydd oed. Dw i'n byw yn Sydney, De Cymru Newydd, Awstralia. Mae'r tywydd yn boeth iawn ac yn sych yma. Fy hoff beth am Awstralia yw'r traethau. Haf yma es i i Ysgol Haf Gymraeg Sydney. Dysgais i sut i chwarae gemau yn y Gymraeg. Dwi'n mwynhau chwarae criced a reidio fy meic.

Cofion,
Cai.



Fy enw i yw Macsen. Rwy'n 9 oed. Rwy'n hoffi reidio beic. Rwy'n byw yn Sydney, Awstralia. Yn Ionawr es i i Ysgol Haf Sydney. Rwy'n siarad Cymraeg yn yr Ysgol Haf. Fy hoff anifail yw'r eryr. Mae llawer o anifeiliaid unigryw yn Awstralia fel emiw ac echidna a platapws. Oes anifeiliaid diddorol yng Nghymru?

Cofion,
Macsen.




Fy enw i yw Betsan. Rwy'n 7 oed. Rwy'n hoffi chwarae yn y parc. Rwy'n byw yn Sydney, Awstralia. Yn Ionawr rwy'n mynd i Ysgol Haf Gymraeg Sydney. Rwy'n siarad Cymraeg yn yr ysgol. Rwy'n hoffi hedfan i Gymru i weld Nain a Taid. Rwy'n mwynhau mynd ar fy ngwyliau i weld fy nheulu yng Nghymru. Rwy'n caru byw yn Sydney. Mae'n dwym ac yn bert.

Llawer o gariad,
Betsan

Fy enw i yw Gwilym. Rwy'n 5 oed. Rwy'n hoffi chwarae ar yr ipad. Rwy'n byw yn agos i'r traeth. Rwy'n hoffi nofio yn y môr.

Sws sws,
Gwilym



GEIRFA

De Cymru newydd - New South Wales
crwbanod - turtles
haf - summer
es i - I went to
dysgais - I learnt
celf a chrefft - arts and crafts
hoff liw - colour
siarad cyn bo' hir - talk soon
yn boeth - hot
traeth - beach
chwarae gemau - to play games
cofion - regards
sws - cusan (kiss)
tywydd - weather
sych - dry
anhwygoel - incredible

amser sbâr - free time
lliw orenaid - orangey colour
fel cneuen - like a nut
ymweld â - to visit
deg gwaith - ten times
blwyddyn diwethaf - last year
Ionawr - January
eryr - eagle
unigryw - unique
emiw - emu
platapws - platapus
diddorol - interesting
hedfan - to fly
gwyliau - holidays
gweld - to see
yn dwym - hot
llawer o gariad - lots of love
yn agos i - close to
môr - sea

Tasg 1

Mae Ceidwad y sŵ (*zoo keeper*) wedi bod yn dangos fideos o'i anifeiliaid ar y wê, ond mae'r camera yn rhy agos (*too close*)

Pa anifeiliaid sydd yma?



Neidr

Dolffin

Llewpart

Jiróff

Parot

Arth

Pengwin

Crwban

Teigr

Tasg 3 - ar ol i ti orffen tasg 2...

Ysgrifenna ddisgrifiad (*description*) o dy anifail.

Dyma fy anifail, y/yr _____. Enw fy anifail i ydy _____.

Mae fy anifail yn byw _____. Mae'n bwyta _____.

Mae fy anifail yn _____ ac yn _____.

Mae gan fy anifail _____, _____ a _____.

Mae fy anifail yn gallu _____.

Tasg 2

Beth am ddylunio (*design*) anifail eich hun?

Tynna lun yn y gwagle isod

Mae fy anifail yn byw ... (My animal lives ...)	Mae'n bwyta... (It eats ...)	Mae fy anifail ... (My animal is)	Mae gan fy anifail ... (My animal has ...)	Mae fy anifail yn gallu ... (My animal can ...)
yn yr anialwch - desert yn yr afon - river yn y môr - sea yn y goedwig - forest yn y jwngl - jungle ar fferm - on a farm mewn ogof - in a cave	cig - meat cnau - nuts dail - leaves gwair - grass pysgod - fish planhigion - plants	yn gyflym - fast yn araf - slow yn fflwfflyd - fluffy yn llyfn - smooth yn flewog - furry yn swnllyd - noisy yn fawr - big yn fach - small yn ffyrnig - vicious yn lliwgar - colourful yn hyll - ugly yn annwyl - cute yn swil - shy yn beryglus - dangerous	goesau byr - short legs ddannedd miniog - sharp teeth glustiau mawr - big ears lygaid mawr - big eyes gynffon hir - long tail adenydd - wings blu - feathers	hedfan - fly neidio - jump rhedeg - run nofio - swim dringo - climb rhuo - roar cnoi - bite hela - hunt cuddio - hide

SEREN ★ SBARC gan Huw Aaron

HA! RWYF FI-Y LLUNGOPiWR WEDI CIPIO SEREN A'I
CHOPiO HI! YR UNIG FFORDD I TI GAEL HI 'NÔL
YW I FFEINDIÔR
COPI CYWIR!
HA HA HA BÎP BÎP ÔÎP



Mae gelyn (enemy) Seren a Sbarc wedi gwneud copi (copied) Seren.
Mae angen ffeindio (to find) y copi cywir (correct copy) ohoni!

ANTUR FALH ADRE

ADEILADU LLOCHES!

Ble?

Yn yr ardd
neu mewn stafell tu fewn



1. Mae angen cysgod rhag y gwynt a'r glaw a'r haul.
2. O ba gyfeiriad mae'r gwynt yn chwythu? Mae angen iddo fod yn ddigon cryf.
3. Mae angen defnyddio rhywbeth sydd yna'n barod e.e. coeden, ffens, brigau cryf a.y.b.
4. Wyt ti'n gallu ffitio yn y lloches? Yw'n ddigon mawr?
5. Mae angen tynnu'r defnydd yn dynn. Dydyn ni ddim eisiau ei fod yn fflapio!



DILYN Y 3 C!

Cysgod - o'r tywydd

Cryf - Gallu sefyll ar ben ei hun (heb orfod ei ddal)

Cadarn - Gallu gwrthsefyll y gwynt (ddim yn fflapio o gwmpas!)

Os ydych yn y tŷ- beth am wneud gyda chadeiriau a blancedi? Fydd dim angen poeni am y gwynt, y glaw na'r haul!

MWYNHEWCH!

Geirfa:


adeiladu lloches - build a shelter/ den
gardd - garden
stafell tu fewn - inside room
mae angen - you need
cysgod - shelter
gwynt a'r glaw - wind and rain
cyfeiriad y gwynt - wind direction
cryf - strong
defnyddio - to use
yno'n barod - already there

coeden - tree
ffens - fence
brigau cryf - strong branches
ffitio - to fit
digon mawr - big enough
tynnu - to pull
defnydd - material
yn dynn - tight
fflapio - flapping
dilyn - to follow
tywydd - weather

gallu sefyll - can stand
ar ben ei hun - on its own
gwrthsefyll - withstand
gwneud - to make
cadeiriau - chairs
blancedi - blankets
fydd dim angen - you won't need to
mwynhewch - enjoy



celt y ceiliog



Geirfa

canu - to sing
gwneud - to do
ioga - yoga

arlunio - to draw
dawnsio - to dance
coginio ryseitiau - to cook recipes

ga i - can I have ...
llonydd - peace

Myffins Siocled Masnach Deg!



Cynhwysion

- 250g blawd codi
- 25g powdwr coco masnach deg
- 2 llwy de powdwr pobi
- 175g siwgr caster masnach deg
- 175ml llaeth
- 2 wy
- 100ml olew blodyn yr haul
- 75g siocled Masnach Deg - wedi torri'n dalpiau
- 2 llwy de o fanila



Cymru Masnach Deg
Fair Trade Wales

Mae hi'n **Ddiwrnod Rhyngwladol Masnach Deg** (World Fairtrade Day) ar Fai 9 2020. Beth am wneud rysâit eich hun Masnach Deg? Ewch i ddysgu yma: [Cliciwch Yma](https://www.cliciwchyma.com/89eli2?x=1jqt&i=k7rq1)

Ewch ar-lein i wneud y cwis cynhwysion.
[quizlet.com/_89eli2?x=1jqt&i=k7rq1](https://www.quizlet.com/_89eli2?x=1jqt&i=k7rq1)

Dull

1. Cynheswch y ffwrn i 170°C/ nwy 5 a leiniwch dun myffins 12 twll gyda chasys.
2. Hidlwch y blawd, coco a'r powdwr pobi i'r fowlen. Nesaf, rhwch y siwgr i fewn a throi y gymysgedd.
3. Ychwanegwch weddill y cynhwysion a'u cymysgu'n ysgafn gyda'i gilydd.
4. Rhannwch y gymysgedd rhwng y 12 casys myffins a'u pobi am 20 munud nes iddynt godi.
5. Gadewch i'r myffins oeri am 10 munud cyn eu trosglwyddo i rac weiren i oeri yn llwyr.
6. Yna amser bwyta a mwynhau!



Geirfa:

siocled ... wedi ei dorri'n dalpiau - chocolate chips
llwy de - teaspoon
cynheswch - warm
ffwrn - oven
nwy - gas mark
leiniwch - line

tun - tin
twll - hole
casys - cases
hidlwch - sift
powlen - bowl
rhowch - put
troi - to turn

cymysgedd - mixture
ychwanegwch - add
gweddill - the rest of
cynhwysion - ingredients
cymysgu - to mix
yn ysgafn - lightly
rhannwch - separate

rhwng - between
pobi - to bake
nes iddynt godi - until they rise
gadewch - leave
oeri - cool
trosglwyddo - transfer
yn llwyr - fully





Geirfa

- archarwr - superhero
- carnifal - carnival
- cymeriad - character
- cynnwys - content
- Eira Wen - Snow White
- gorymdaith - (carnival) procession
- gwisg ffansi - fancy dress
- gwisgoedd - costumes
- gwobr - prize
- mwng - mane
- pentref - village
- ymuno - join
- ymddwyn yn od - to act strangely

Dwi'n gweld gyda fy llygad ddrygionus i...

Hwyl a direidi Na, Nell!





Cyfrwch y nifer o bethau
yn ymwneud â byd Na,
Nel!. Ysgrifennwch y
rhif cywir yn y blwch.



Nel



Pensel



Enfys



Llyfr



Seren




Mister Fflwff



Wy Pasg

Beth am roi cynnig ar wneud eich pos eich
hun? Fe allwch chi ddefnyddio lluniau a
chymeriadau o lyfrau Na, Nel!, neu ddefnyddio
pethau yn ymwneud â'r gwanwyn.



£4.99
yr un

Llyfr
gweithgaredd
llawn posau
a syniadau
Nel!



Mae llyfrau Na, Nel! ar
werth mewn siopau llyfrau
ac arlein: www.ylolf.com





SEREN ★ SBARC

gan
Huw
Aaron

MAE GRŴP O ELYNION SEREN A SBARC WEDI GADAEI
PENTWR O FOMIAU I FFRWYDRO EIN HARWYR I DDARNAU
MÂN! I'W STOPIO, RHAI D FFEINDIO'R GAIR CUDD - TRWY
DYNNU LLINELL SYTH (GYDA PHREN
MESUR O'R ENW I'R LLUN CYWIR - A NODI
BLE MAE'R LLINELLAU YN CROESI!

FEL HYN

SIÂN
CYRN
CAPTEN
CW PAN
Y
DDERWEN
DRWG
DOTI DOT
BALŴNA
Y TORTSH

C R G
D E L
W I
A P J
L O M
F N I
C S E
M



Seren and Sbarc must defeat their enemies

by drawing a line from the enemy's name to the correct picture of them.
Then they must work out what the secret code is where the lines meet.